



7.6.22

Annwyl Rieni a Gofalwyr,

Hoffem ymddiheuro am y dryswch ddoe ynglŷn â'n gweithgareddau Pythefnos Iechyd a Lles.

Mae amrywiaeth helaeth o weithgareddau wedi'u trefnu ar gyfer ein holl ddisgyblion o'r dosbarth Meithrin hyd at FI 6.

Nod y llythyr hwn yw rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch, dyddiadau, gweithgareddau a'r hyn y mae angen i'n disgyblion ei wisgo.

Gobeithiwn y bydd ein disgyblion yn mwynhau'r pythefnos hwn ac yn darganfod diddordebau a sgiliau newydd ar gyfer y dyfodol.

**6.6.22-17.6.22** – Pythefnos Iechyd a Lles. Pob disgybl i wisgo cit Addysg Gorfforol i'r ysgol bob dydd. Yr unig eithriad yw **13.6.22**. Pob disgybl i wisgo gwisg ysgol ar gyfer ffotograff yr ysgol.

**Mabolgampau- Mae'r cyfan yn dechrau am 1yp os bydd y tywydd yn caniatáu.** Fe wnawn arolwg o'r cae bob bore er mwyn sicrhau diogelwch i bawb. Os bydd angen i ni aildrefnu oherwydd y tywydd, cewch eich hysbysu erbyn **10yb** drwy neges destun.

**13.6.22** – BI 3 a 4

Bydd angen i ddisgyblion BI 3,4,a 6 wisgo gwisg ysgol i'r ysgol gyda'u cit Addysg Gorfforol yn eu bag er mwyn newid am y prynhawn.

**14.6.22-** Meithrin Llawn Amser a Dosbarth Derbyn

Ni allwn wahodd plant Meithrin Rhan Amser i gymryd rhan

**15.6.22-** BI 1 a 2

**16.6.22** – BI 5 a 6

Mae disgyblion BI 3,4,5 a 6 mewn Llysoedd. Caniateir iddynt wisgo crys-t yn lliw eu llys ar gyfer Mabolgampau. Bydd athro dosbarth eich plentyn yn eich hysbysu am hyn.

Bydd y Picnic Iach ar ddydd Gwener 10.6.22 – cynhelir y picnic yn y prynhawn **AR ÔL** i'r disgyblion gael eu cinio. I'r disgyblion hynny sydd â brechdanau a allech chi nodi'n glir pa un yw eu cinio a pha un yw eu picnic os gwelwch yn dda.

Gweler amserlen y digwyddiadau ar gyfer y pythefnos hwn, bydd lluniau'n cael eu postio ar Twitter.

Ochr yn ochr â'r digwyddiadau sydd wedi'u hamserlennu bydd ein disgyblion yn dysgu am gadw'n iach yn gorfforol ac yn feddyliol yn ystod gweithgareddau dosbarth.

Diolch am eich cefnogaeth

	Dydd Llun 6.6.22	Dydd Mawrth 7.6.22	Dydd Mercher 8.6.22	Dydd Iau 9.6.22	Dydd Gwener 10.6.22
Bore		<b>BI 6 bechgyn -Rygbi - Dreigiau BI 1 a 2</b> Urdd - chwaraeon	<b>Meithrin- BI 2</b>  Heini	<b>Meithrin a Derbyn</b>  Urdd - chwaraeon	
Prynhawn		<b>Ffilmio</b> M-BI 6 Cân yr Ysgol			Picnic Iach
	Dydd Llun 13.6.22	Dydd Mawrth 14.6.22	Dydd Mercher 15.6.22	Dydd Iau 16.6.22	Dydd Gwener 17.6.22
Bore	Ffotograffiau Dosbarth POB disgybl  <b>BI 3 a 4</b> Gweilch  <b>BI 6</b> Scorpions	Clwb Anifeiliaid  <b>BI 3,4,5</b>	<b>Merched BI 3 a 4</b> Rygbi – Disgyblion Ysgol Gyfun Llangynwyd	<b>Merched BI 5 a 6</b> Rygbi – disgyblion Ysgol Gyfun Llangynwyd	Triawd Press  <b>M-BI 2</b> <b>BI 5 a 6</b>
Prynhawn	Mabolgampau  <b>BI 3 a 4</b>	Mabolgampau <b>Meithrin a Derbyn</b>	Mabolgampau <b>BI 1 a 2</b>	Mabolgampau <b>BI 5 a 6</b>	Brigâd Dân  <b>BI 2 a 5</b>